


## Panel yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Tystiolaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

19eg Mawrth 2010



### Egwyddorion

Yr egwyddorion sylfaenol y tu ôl i'r ddogfen hon yw mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg fod yn ieithoedd swyddogol gweithredol yn y Cynulliad, a bod y Gymraeg yn bodoli mewn cyd-destun amlieithog eang.

Mae hwn yn gyfnod allweddol i sicrhau y bydd y Cynulliad yn mabwysiadu dwyieithrwydd gweithredol yn ogystal â dwyieithrwydd symbolaidd.

Dylai Polisi Iaith y Cynulliad Cenedlaethol fod yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- Y Gymraeg fel priod iaith Cymru
- Y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol gweithredol y Cynulliad
- Dilysrwydd cyfartal annibynnol y Gymraeg a'r Saesneg yn y Cynulliad
- Cymru fel gwlad amlieithog sy'n bodoli mewn cyd-destun amlieithog eang

Nodwn fod Polisi Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan:

***“Diben y Cynllun yw gweithredu'r egwyddor y dylid trin Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, a hynny wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid gweithredu'r egwyddor hon cyhyd ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.”***

Credwn yn hytrach mai dyletswydd y Cynulliad yw sicrhau ei bod yn rhesymol ymarferol i bob Aelod Cynulliad, pob aelod o staff y Cynulliad, pob sefydliad, pob mudiad, a phob aelod unigol o'r cyhoedd sy'n cyfathrebu â'r Cynulliad gael defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis.

Cydnabyddwn fod Cymru'n wlad amlieithog ac yn wlad sy'n rhan o Undeb Ewropeaidd

amlieithog. Tra cydnabyddir lle arbennig y Gymraeg fel priod iaith Cymru ac un o ddwy iaith swyddogol y wlad, a'r Saesneg fel yr iaith swyddogol arall, yr ydym yn ymwybodol fod ieithoedd eraill yn cael eu defnyddio gan bobl Cymru, gan gynnwys ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ac Arwyddiaith Brydeinig (Iaith Arwyddion y Byddar).

Credwn y dylai'r Cynulliad wneud defnydd o ieithoedd eraill yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw iaith arall wrth ymwneud â chyrff llywodraethol, sefydliadau, mudiadau, ac aelodau unigol o'r cyhoedd fel y bo'n briodol. Nodwn fod tudalen gwefannau cyrff democrataidd eraill yn cynnwys testun mewn mwy o ieithoedd nag ieithoedd swyddogol y gwledydd hynny, gan gynnwys Catalunya, Gwlad y Basg a Galicia.

## 1. Y Cynulliad: Sesiynau Llawn

### Y Cofnod

Mae'r Gymdeithas yn teimlo yn gryf iawn bod y polisi o beidio â chyhoeddi cofnod o drafodaethau'r Cynulliad yn llawn yn y Gymraeg o fewn 24 awr yn gwbl groes i'r ymrwymiad a'r ddyletswydd gyfreithiol ar Gomisiwn y Cynulliad i drin y ddwy iaith "ar sail cyfartaledd"<sup>1</sup>

Ar 4ydd Medi 2009, dywedodd y bargyfreithiwr Gwion Lewis bod y penderfyniad i beidio â darparu cofnod mewn 24 awr yn anghyfreithlon: "***This policy change is illegal and I'm confident that the High Court would reject it if a request for a judicial review was made,***"

Gobeithiwn yn fawr iawn nad yw'r panel yn mynd i ddefnyddio'r cyfle yma i newid polisi'r Cynulliad i gadarnhau'r statws is sydd gan y Gymraeg oherwydd y penderfyniad ar 30 Medi.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yn y Cynulliad, ond wrth gyhoeddi y cofnod Cymraeg yn hwyrach na'r Saesneg mae sefydliad democrataidd Cymru yn datgan nad yw'r Gymraeg yn gyfartal a'r Saesneg a bod ganddi statws is na'r iaith arall.

---

<sup>1</sup> [Adran 35\(1\)](#) Deddf Llywodraeth Cymru – Cymraeg a Saesneg ar sail cyfartal yn nhrefodion y Cynulliad.  
[156\(1\)](#) – dilysrwydd dogfennau cyfreithiol yn y Cynulliad yn Gymraeg  
[Paragraff 8\(3\)](#) o Atodlen 2; yn y Cynulliad y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y Cynulliad.

Os taw ystyriaethau ariannol sydd tu ôl i'r penderfyniad, awgrymwn nad oes cyhoeddiad o gwbl o'r Cofnod nes bod fersiwn ddwyieithog lawn ar gael.

Hefyd, awgrymwn isod y dylai fod cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ystod pob cyfarfod pwyllgor a sesiwn lawn, yn dilyn yr arferion Ewropeaidd gorau. Mae pob iaith yn Senedd Ewrop yn cael ei chyfieithu'r ddwy ffordd sef, yn achos y Gymraeg, o'r Saesneg i'r Gymraeg a vice versa.

Credwn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddilyn yr un arfer. Byddai sawl mantais i gyfieithu ar y pryd o'r fath ac ym mhob cyfarfod cyhoeddus o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, byddai:

- gwasanaethau ar-lein megis Senedd.tv yn gwbl ddwyieithog;
- cyfieithiad di-oed yn bodoli er mwyn darparu cofnod dwyieithog llawn a chofnod yn y Gymraeg ar yr un pryd a'r Saesneg
- annog defnydd uwch o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle mae'r drafodaeth yn y Saesneg ar y cyfan
- dangos tegwch i'r Gymraeg gan nad yw'n bosibl clywed y trafodaethau i gyd yn y Gymraeg er bod hynny'n bosib yn y Saesneg

Hefyd, dylid cyhoeddi cofnod dwyieithog llawn o drafodion pob pwyllgor.

### Cadeirio

Credwn ymhellach y dylai'r Llywydd a'r Is-lywydd agor, cau, a llywio sesiynau llawn y Cynulliad gan ddechrau llefaru yn Gymraeg, fel priod iaith Cymru ac un o ieithoedd swyddogol y Cynulliad, ac yna yn Saesneg, fel iaith swyddogol arall y Cynulliad.

Credwn fod llywio cyfarfod dwyieithog yn sgil y mae angen ei meithrin er mwyn sicrhau cyfle ieithyddol cyfartal i bob Aelod. Dylai fod hyfforddiant yn y grefft hon i bawb a fydd yn cadeirio cyfarfod fel rhan o waith y Cynulliad.

## leithoedd Lleiafrifoedd Ethnig

Gan gydnabod bod Cymru yn wlad amlieithog, credwn y dylai'r Cynulliad ymgynghori a grwpiau lleiafrifoedd ethnig am y mathau o wybodaeth y dylid eu cynhyrchu yn ieithoedd y lleiafrifoedd ethnig.

### **2. Y Pwyllgorau**

Credwn y dylai Pwyllgorau'r Cynulliad gydnabod lle arbennig y Gymraeg fel priod iaith Cymru.

Credwn ymhellach y dylid darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor i alluogi Aelodau'r Cynulliad a gwahoddedigion i'r cyfarfodydd pwyllgor annerch neu gyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg a dilyn trafodion yn y naill iaith neu'r llall.

Credwn ymhellach y dylai Cadeirydd pob Pwyllgor agor, cau, a llywio'r cyfarfod yn yn Gymraeg fel priod iaith Cymru ac un o'r ddwy iaith swyddogol.

Credwn y dylai cofnodion y cyfarfod gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ac y dylai cofnod verbatim o dystiolaeth oddi wrth dystion gael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

### **3. Aelodau Cynulliad**

Credwn y dylai Aelodau'r Cynulliad gydnabod lle arbennig y Gymraeg fel priod iaith Cymru.

Credwn ymhellach y dylai Aelodau'r Cynulliad ymarfer parch tuag at y Gymraeg fel priod iaith Cymru, at y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol y Cynulliad, ac at ieithoedd eraill Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, wrth ymwneud a'i gilydd yn sesiynau llawn y Cynulliad ac yn y cyfarfodydd pwyllgor, wrth ymwneud ag aelodau o staff y Cynulliad, ac wrth gyfathrebu ag aelodau o'r cyhoedd.

Credwn ymhellach y dylai'r Aelodau gael defnyddio gwasanaethau cyfieithu'r Cynulliad i gyfathrebu â'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus yn llafar ac yn ysgifenedig yn rhad ac yn ddim.

Credwn ymhellach fod gan yr Aelodau hawl i dderbyn cymorth ieithyddol (e.e. cyngor gramadegol neu eirafol) yn rhad ac am ddim i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn llafar neu yn ysgrifenedig.

#### **4. Gwasanaethau a Ddarperir ar ran y Cynulliad gan Gyrff Eraill**

Dylai unrhyw gyrff a gyflogir gan y Cynulliad i ddarparu gwasanaeth ar ran y Cynulliad weithredu polisi iaith sy'n cyd-fynd â pholisi iaith y Cynulliad fel amod ar eu cytundeb.

Ar hyn o bryd, deallwn nad yw'n bosib derbyn gwasanaeth Cymraeg bron o gwbl wrth ddefnyddio sawl gwasanaeth mewnol ac allanol yn y Cynulliad, gan gynnwys,affe'r Senedd yn yr Oriel, gwasanaethau arlwy, a diogelwch.

Deallwn y darperir y gwasanaeth arlwy gan gwmni allanol a bod y cwmni yn darparu llawer iawn o daflenni a gwybodaeth marchnata'n uniaith Saesneg. Nid oes gwasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg o gwbl.

#### **5. Staff a gwasanaethau i staff**

Credwn y dylai'r Cynulliad fabwysiadu a gweithredu polisi iaith mewnol.

Dylai pob aelod o staff y Cynulliad, fel Cynulliad holl bobl Cymru, allu cyflawni ei ddyletswyddau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cydnabyddwn fod lefelau gwahanol o fedr yn y Gymraeg a'r Saesneg yn briodol i swyddi gwahanol o fewn y Cynulliad.

Credwn y dylai proffil gofynion ieithyddol ieithyddol swydd gynnwys amserlen a thargedau parthed cyrraedd safon weithredol ddefnyddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Credwn y dylid ystyried llunio a gweinyddu arholiadau ar lefelau gwahanol i brofi gallu staff y Cynulliad i weithio trwy'r Gymraeg. Nodwn fod arholiad tebyg o'r enw EGA yng Ngwlad y Basg.

Credwn ymhellach y dylai holl staff y Cynulliad hefyd fod yn ymwybodol o gyd-destun

diwylliannol a gwleidyddol unigryw Cymru ac y dylid darparu hyfforddiant ynglŷn â hyn i holl aelodau staff y Cynulliad yn ystod oriau gwaith, yn y man gwaith, ac yn rhad ac am ddim.

Credwn ymhellach y dylai'r Cynulliad lunio cynllun manwl a phenodol i hyrwyddo gweinyddiad y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg gan osod targedau ar amserlen.

Dylai fod gan pob aelod o staff yr hawl i weithio yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth wrth wneud hynny.

Does bron dim un o'r gwasanaethau gweinyddol y Cynulliad ar gael yn Gymraeg; gan gynnwys gwasanaethau llety ac adnoddau dynol. Er enghraifft, nid oes gwybodaeth na gwasanaeth ar bensiynau, cytundebau, iechyd na diogelwch ar gael yn y Gymraeg.

Nid yw'r Gwasanaeth Ymchwil yn cynnig gwasanaeth Cymraeg cyfartal i'r un yn y Saesneg nac yn gwneud unrhyw ymdrech i weithio yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bob tro mae rhywun yn gofyn am friffiad yn y Gymraeg, yn ddi-eithriad mae'r staff yn gofyn os yw'r person eisiau ateb yn Gymraeg. Mae'n amlwg, nad yw'r Gymraeg wedi'i normaleiddio yn fewnol yn y Cynulliad – bron yn ddi-eithriad darperir gwasanaeth ysgrifenedig i'r staff yn Saesneg yn unig gyda chyfieithiad i'r Gymraeg lle bo hynny'n bosib. Ai mater o ddiffyg adnoddau yw hyn, ynteu'r fframwaith sy'n ddiffygiol? Awgrymwn y dylai'r gwasanaeth ymchwil gyflogi pobl sydd yn gweithio'n ddwyieithog, gydag o leiaf un person o fewn pob maes polisi penodol gyda'r gallu i ddarparu gwybodaeth yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Awgrymwn fod y panel adolygiad yn siarad â staff sy'n siarad Cymraeg yn unigol am eu profiadau nhw o'r sefyllfa.

Deallwn nad yw'r fewnwyd staff yn hollol ddwyieithog, gyda darnau'n unig, ar hap a damwain, ar gael yn y Gymraeg.

Deallwn fod e-byst cyffredinol – yn enwedig oddi wrth y gwasanaeth pwyllgorau, gwasanaeth adnoddau dynol a gwasanaeth llety – yn uniaith Saesneg yn gyffredinol.

Mae staff yn derbyn datganiadau ysgrifenedig gan Weinidogion yn uniaith Saesneg yn

gyntaf, gyda neges yn dweud y bydd y fersiwn Gymraeg ar gael 'yn fuan'; ni ddanfonir fersiynau Cymraeg byth at staff.

Awgrymw'n fod y Cynulliad yn anelu at weinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei swyddfa yn y Gogledd yn gyntaf ac wedyn y sefydliad cyfan.

## **6. Arwyddion, Hysbysiadau a Chyhoeddiadau**

Credwn y dylai pob arwydd, hysbysiad, cyhoeddiad (llafar, printiedig neu electronig), &c. fod yn y Gymraeg a'r Saesneg gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Credwn y dylai'r Cynulliad gydnabod bod Cymru'n wlad amlieithog ac yn wlad sy'n rhan o Undeb Ewropeaidd amlieithog wrth fynegi hunaniaeth weledol a chlywedol.

Credwn y dylai'r Cynulliad gymryd camau i fynegi lluosogrwydd ieithyddol Cymru a'i pherthynas â gweddill yr Undeb Ewropeaidd drwy ddefnydd gweledol a chlywedol o ieithoedd eraill Cymru, ieithoedd yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw ieithoedd eraill lle fo'n briodol.

## **7. Y Cynulliad a'r Cyhoedd a Chyrff Cyhoeddus**

Credwn y dylai aelodau o'r cyhoedd gael defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd, ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus a gynhelir gan y Cynulliad ac y dylid darparu hysbysrwydd am y cyfarfodydd, ymchwiliadau a gwrandawiadau yn ddwyieithog, holl ddogfennau perthnasol i'r cyfarfodydd, ymchwiliadau a gwrandawiadau yn ddwyieithog, a chyfleusterau cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Credwn y dylai'r Cynulliad ddarparu pob gwasanaeth a chyhoeddiad a fwriedir i'r cyhoedd yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad, sef Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg ar y sail taw hi yw priod iaith Cymru.

- Dylai cyhoeddiadau printiedig ac electronig fod mewn fformat dwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

- Pan fo rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân o ddogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg, dylid sicrhau fod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac mewn diwyg o ansawdd cyfartal.
- Dylai cyhoeddiadau llafar fod yn ddwyieithog gan ddechrau yn Gymraeg a gorffen yn Saesneg.
- Pan fo'n rhaid cynnig gwasanaeth ar wahân yn y naill iaith neu'r llall, dylai mynediad at y gwasanaethau Cymraeg fod yr un mor hawdd â mynediad at y gwasanaethau Saesneg.

Credwn y dylai'r Cynulliad allu darparu unrhyw wasanaeth neu gyhoeddiad i'r cyhoedd mewn unrhyw un neu ragor o ieithoedd eraill Cymru, yr Undeb Ewropeaidd neu unrhyw iaith arall fel bo'n briodol.

Credwn y dylai pob aelod staff y Cynulliad sy'n ymwneud â'r cyhoedd gynnig gwasanaeth dwyieithog yn weithredol drwy gyfarch y cyhoedd yn y ddwy iaith gan ddechrau yn y Gymraeg, fel priod iaith Cymru ac un o'r ddwy iaith swyddogol, a gorffen yn y Saesneg, y iaith swyddogol arall. Dylid parhau i gyfathrebu yn yr iaith a ddewisir gan yr unigolyn, y grŵp o unigolion, neu'r sefydliad. Pan fo'r amgylchiadau'n briodol dylai'r Cynulliad allu cyfathrebu â'r cyhoedd yn ieithoedd eraill Cymru, ieithoedd yr Undeb Ewropeaidd neu unrhyw iaith arall.

Credwn y dylai'r Cynulliad gyfathrebu â phob corff cyhoeddus yn Gymraeg yn unig. Nodwn mai dyma arfer Cyngor Sir Gwynedd.

Credwn y dylai'r Cynulliad baratoi datganiadau i'r wasg a'i waith aml-gyfyngol, gan gynnwys senedd.tv, yn Gymraeg a Saesneg o leiaf ac y dylid darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cynadleddau i'r wasg.

## **8. Y Pwyllgor Iaith a Monitro**

Credwn y dylai fod Pwyllgor Iaith i fonitro a gweithredu Cynllun Iaith y Cynulliad Cenedlaethol.

Credwn y dylai'r Pwyllgor Iaith fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith yn ei holl agweddau a



chyhoeddi adroddiad blynyddol cyhoeddus a ddeil sylw ar gwynion am fethu gweithredu'r Polisi'n foddhaol.

Credwn ymhellach y dylai Cynllun Iaith y Cynulliad roi gwybodaeth i'r Aelodau a staff y cynulliad a'r cyhoedd ar sut i gwyno am fethiannau yng ngweithrediad y Polisi.

## **Atodlen 1**

**Datganiad Ysgrifenedig gan Gomisiwn y Cynulliad ar y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**30 Medi 2009**

### **Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Cynhaliwyd cyfarfod heddiw rhwng Comisiynwyr y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad oedd wedi llofnodi'r cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ar 21 Medi 2009.

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd penderfyniad diweddar y Comisiwn i gyhoeddi cyfieithiad o'r Saesneg i'r Gymraeg o gofnod trafodion y cyfarfod llawn o fewn 10 niwrnod yn hytrach na 24 awr ac, o'r wythnos hon ymlaen, i gychwyn cyfieithu trafodion pwyllgorau deddfwriaeth pan fyddant yn trafod Mesurau. Cytunwyd y dylid lleihau'r amser ar gyfer cyfieithu cofnod trafodion y cyfarfod llawn i 3-5 niwrnod gwaith ac y bydd y mater yn ffurfio rhan o adolygiad llawn a thryloyw i edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd yr adolygiad yn dechrau cyn gynted a phosibl, yn cynnwys ymgynghori ag aelodau, ac yn dod i ben erbyn diwedd mis Ionawr.

Cytunwyd hefyd y caiff unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cyfieithu cofnod trafodion y cyfarfod llawn a argymhellir yn dilyn yr adolygiad eu rhoi ar waith, ac yn ehangach, y bydd argymhellion yr adolygiad annibynnol yn ffurfio sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y dylid diwygio Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol.

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-written-min-state.htm?act=dis&id=144960&ds=9/2009>

## **Atodlen 2**

### **Proffil o'r aelodau:**

Mae gan Arwel Ellis Owen brofiad helaeth o'r byd cyfathrebu fel cyfarwyddwr a sylfaenydd y cwmni cyfathrebu, Cambrensis. Ef hefyd yw Cadeirydd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru ac Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn fwyaf diweddar, fe'i penodwyd yn Gadeirydd Cyngor Gofal Cymru.

Sefydlodd Susan Balsom ei chwmni cysylltiadau cyhoeddus, dylunio a chyhoeddi dwyieithog ei hun, FBA yn Aberystwyth ym 1989. Mae Mrs Balsom, yn gyn Gymraes y flwyddyn, wedi gwasanaethu ar fwrdd Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru ac fel Is-gadeirydd Cyngor Darlledu'r BBC ar gyfer Cymru. Tan yn ddiweddar, hi oedd Cadeirydd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru ac mae wedi cynrychioli Cymru ar Fwrdd Cynnwys OFCOM, y rheoleiddiwr telathrebu a darlledu yn y DU, ers 2003. Eleni, fe'i penodwyd yn Llysgennad ar gyfer amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus gan swyddfa'r Cabinet.

Ymgynghorwr manwerthu annibynnol a rheolwr gyfarwyddwr Gorsedd Cyf, cwmni eiddo masnachol yw Geraint Evans. Cyn hynny, bu'n rheolwr gyfarwyddwr ar siop fanwerthu Dan Evans (Barry) Ltd. Bu hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar Associated Independent Store Ltd, y grŵp mwyaf yn y DU nad yw'n ymwneud â phrynu bwyd.

Ar hyn o bryd, yr Athro Colin Baker yw Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Bangor ac mae hefyd yn Athro Addysg yno. Cyn hynny, cafodd yrfa hir fel darlithydd prifysgol ym maes addysg gyda llawer o gyhoeddiadau ar ddwyieithrwydd. Bu hefyd yn aelod o gyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ddeng mlynedd.

Cylch gorchwyl y Panel yw:

1. Bydd yr adolygwyr yn gwneud y canlynol:

- a) ystyried sut y caiff yr holl wasanaethau dwyieithog presennol eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys datblygiadau mewn gwasanaethau dwyieithog ers sefydlu'r Comisiwn yn 2007, a'r cynigion a nodwyd yn natganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad ar 30 Medi 2009.
- b) ystyried barn ein prif gwsmeriaid am ein gwasanaethau dwyieithog ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- c) ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian, gan fanteisio ar arferion rhyngwladol gorau,

i wneud argymhellion i'w hystyried gan Gomisiwn y Cynulliad ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad yn y dyfodol, gan gynnwys:

- cynnig opsiynau ar gyfer diffinio a chyflawni uchelgais y Cynulliad i fod yn "sefydliad gwirioneddol ddwyieithog";
- sefydlu egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r agwedd at wasanaethau dwyieithog;
- ystyried pob math o wasanaeth, gan gynnwys er enghraifft, cyfryngau newydd a deunydd archif.

d) argymell ffordd ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad a thu hwnt (bydd cyfnod y Cynllun Iaith Presennol wedi dod i ben erbyn hynny).